



**Gweithdrefn ar gyfer Cwynion yn ymwneud â
Chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg**

<u>Rheolaeth Dogfen</u>	
Fersiwn	2
Awdur (Enw, Teitl Swydd)	Caroline Hawkins, Swyddog Polisi
Dyddiad Cymeradwyo	
Cymeradwywyd gan	
Disodli Fersiwn	1
Dyddiad yr Adolygiad Nesaf	Mawrth 2024
Cwblhawyd/Adolygwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	Do/Naddo

<u>Rheolaeth Fersiwn</u>			
Fersiwn	Dyddiad	Diwygiwyd gan	Rheswm dros gyhoeddi/diwygio
2.0	06/07/2020	Caroline Hawkins	<p>Cynhaliwyd adolygiad 3 blynedd llawn --</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae cyfeiriad at Safonau'r Gymraeg wedi ei gynnwys yn 4.3 yn y ddogfen hon • Ceir fformat ymatebion i achwynwyr yn 4.5 yn y ddogfen • Cyfeirir at y cyfnod cadw ar gyfer cwynion yn 4.7 yn y ddogfen hon

SWYDDFA COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU
GWEITHDREFN AR GYFER CWYNION YN YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIAETH
Â SAFONAU'R GYMRAEG

Polisi

1. Cyflwyniad

Mae'r weithdrefn hon yn ymwneud â chwynion yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent.

2. Nod

Nod y weithdrefn hon yw sicrhau yr ymdrinnir â chwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y sefydliad â Safonau'r Gymraeg yn unol â'r gofynion a amlinellir yn y Safonau hynny.

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i aelodau'r cyhoedd sydd am wneud cwynion ynghylch cydymffurfiaeth y sefydliad.

3. Termau a Diffiniadau

Term	Diffiniad
Swyddfa'r Comisiynydd	Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau

4. Prif Gorff y Polisi a/neu Weithdrefn

4.1 Mae'r Comisiynydd wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am oruchwylio cwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg i Brif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau (Swyddfa'r Comisiynydd).

4.2 Os caiff Swyddfa'r Comisiynydd gŵyn, bydd y Prif Weithredwr, ar y cyd â swyddog arweiniol y Gymraeg, yn ystyried natur y gŵyn fel y mae'n ymwneud â'r safonau y mae dyletswydd ar y Comisiynydd i gydymffurfio â hwy. Bydd hyn yn berthnasol i bob cwyn a dderbynnir yng nghyd-destun y Gymraeg a chydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.

- 4.3 Os bydd ymchwiliad i'r gŵyn yn canfod achos o ddiffyg cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, rhoddir cynllun gweithredu ar waith i unioni'r mater y rhoddwyd gwybod amdano.
- 4.4 Bydd y cynllun gweithredu yn gwneud darpariaeth ar gyfer hyfforddiant staff fel y bo'n briodol i natur y mater cydymffurfiaeth y rhoddwyd gwybod amdano. Gellir cynnal hyfforddiant ar sail unigol neu ar draws y sefydliad cyfan yn unol â chanfyddiadau'r ymchwiliad.
- 4.5 Ar ôl cwblhau'r ymchwiliad, hysbysir yr achwynydd o'r canlyniad yn ysgrifenedig. Caiff unrhyw gynllun gweithredu sy'n gysylltiedig â'r gŵyn ei gadw gan Swyddfa'r Comisiynydd fel rhan o ffeil y gŵyn.
- 4.6 Caiff cofnod o bob cwyn ysgrifenedig sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth ei gadw gan Swyddfa'r Comisiynydd. Caiff pob cwyn a dderbynnir yn hyn o beth ei chadw ar y ffeil er gwybodaeth yn y dyfodol.
- 4.7 Caiff cofnod o bob cwyn ysgrifenedig sy'n ymwneud â'r Gymraeg (p'un a yw'n ymwneud â safon benodol ai peidio) ei gadw gan Swyddfa'r Comisiynydd am chwe blynedd, yn unol ag adran cwynion Cynllun Cadw Swyddfa'r Comisiynydd.
- 4.8 Bydd Swyddfa'r Comisiynydd yn cyhoeddi gwybodaeth am nifer y cwynion a gafwyd mewn perthynas â chydymffurfiaeth yn yr Adroddiad Blynyddol.

5. Hyfforddiant

Nid oes unrhyw anghenion hyfforddiant yn gysylltiedig â gweithrediad y polisi hwn.

6. Monitro

Caiff y weithdrefn hon ei monitro o fewn y prosesau adrodd blynyddol ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd. Swyddog arweiniol y Gymraeg sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r adroddiad i'r Bwrdd Strategaeth a Pherfformiad. Cyhoeddir yr adroddiad yn flynyddol cyn y dyddiad cau statudol ar 30ain Medi.

7. Ymgynghori

Ymgynghorwyd â'r Prif Weithredwr wrth lunio'r weithdrefn hon

8. Dogfennau Cysylltiedig

Safonau'r Gymraeg ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent

9. Dosbarthiad

Bydd swyddog arweiniol y Gymraeg yn sicrhau bod y ddogfen hon yn cael ei chyhoeddi ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd trwy gyfrwng y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae'r ddogfen ar gael yn Saesneg hefyd.

10. Cyfnod Adolygu

Caiff y weithdrefn hon ei hadolygu bob pedair blynedd yn unol â Strategaeth y Gymraeg ar y Cyd Swyddfa'r Comisiynydd/Heddlu Gwent.

11. Atodiadau

Dim